**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 26**
**Ymateb gan: Sefydliad Dysgu a Gwaith**
**Response from: Learning and Work Institute**

---

Diolch am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Gwyddom fod y Pwyllgor eisoes wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar o bob rhan o'r sector ôl-orfodol a gan y byddwn yn fras yn rhannu llawer o'r pwyntiau hyn, rydym felly wedi canolbwyntio ein hymateb ar ychydig o bwyntiau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys pwyntiau penodol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth a hefyd lle credwn y bydd angen i'r Comisiwn dalu sylw neilltuol ar y cam gweithredu.

**Am Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru**

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yn elusen ymchwil a datblygu annibynnol sy'n arbenigo mewn dysgu gydol oes, sgiliau a chyflogaeth. Mae ein gwaith yn cynnwys cynghori a chefnogi Llywodraeth Cymru a'r sector addysg oedolion a sgiliau yn ehangach. Rydym yn rhan o Grŵp Strategaeth a Gweithredu AHO Llywodraeth Cymru.

**Ymagwedd gyffredinol at y Bil**

Fel sefydliad rydym wedi rhoi cefnogaeth gyson i egwyddor deddfwriaeth fel rhan bwysig o adeiladu sector ôl-orfodol fwy cydlynol lle mae gan ddysgwyr fannau ymuno clir a llwybrau dilyniant.

Credwn yn gryf mai dim ond drwy ffocws cyson a buddsoddiad mewn dysgu gydol oes y gellir diwallu'r heriau sy'n wynebu Cymru a'r Comisiwn. P'un a yw hynny yn effaith newid demograffig a chymdeithas sy'n heneiddio, datblygiadau technolegol sy'n ail-lunio byd gwaith neu'r angen am weithredu personol a thorfol i ateb y argyfwng hinsawdd a natur, mae gan dysgu gydol oes ran bwysig i'w chwarae.

Sylweddolwn hefyd y bu gwelliannau penodol i'r ddeddfwriaeth fel canlyniad i ymgysylltu blaenorol gyda'r sector. Fodd bynnag, credwn fod meysydd penodol lle mae angen mwy o eglurdeb ar fanylion y rheoliadau dilynol a lle bydd angen i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru roi sylw neilltuol ar y cam gweithredu.

**Dyletswydd i hyrwyddo dysgu gydol oes**

Un maes i'w wella yw cynnwys dyletswydd newydd i'r Comisiwn hyrwyddo dysgu gydol oes. Bydd yn helpu sicrhau fod y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth i ddysgwyr o bob oed ac yn cydnabod yr her o ddarparu mynediad i addysg a hyfforddiant priodol ar hyd ein bywydau.

Wrth ystyried sut i weithredu'r ddyletswydd hon yn effeithlon bydd angen i'r Comisiwn dargedu adnoddau at y grwpiau a'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf. Am fwy nag ugain mlynedd mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi llunio Arolwg Cyfranogiad[1], sy'n olrhain ac yn ymchwilio lefelau cyfranogiad mewn dysgu a rhwystrau a chymhellion dysgwyr. Mae'r arolwg yn tynnu sylw yn gyson at batrwm o anghydraddoldeb mewn mynediad at ddysgu. Yn benodol, dengys yr arolwg mai'r rhai a adawodd yr ysgol gynharaf sydd â lleiaf o gymwysterau, a bod y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn llai tebygol o ddysgu fel oedolion. Ar y llaw arall, y rhai gyda'r lefelau presennol uchaf o gymwysterau sydd debycaf o gymryd rhan. **Wrth gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo dysgu gydol oes bydd yn bwysig i'r Comisiwn ddeall patrwm cyfranogiad ac i sicrhau y caiff adnoddau eu targedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf.**

Mae meysydd penodol lle dylid rhoi sylw neilltuol:

- **Mannau ymuno hygyrch i ddysgu:** bydd angen i'r Comisiwn gydbwyso buddsoddiad yn briodol ar draws y sector ôl-orfodol i sicrhau fod dysgu yn hygyrch. Mae'n rhaid i hyn olygu cyfleoedd addas o fewn cymunedau, allgymorth ac ymgysylltu i gyrraedd grwpiau a dan-gynrychiolir, cyngor annibynnol ac arweiniad, a chyfrifoldeb ar bob rhan o'r system AHO i ehangu cyfranogiad i grwpiau a dangynrychiolir.

- **Cydnabyddiaeth a buddsoddiad mewn dysgu oedolion yn y gymuned:** dylai cydnabyddiaeth glir gan y Comisiwn o rôl dysgu oedolion yn y gymuned fod yn sail i'r angen am fannau ymuno hygyrch yn y system, I lawer o oedolion, mynediad i ddysgu yn y gymuned fydd eu cam cyntaf ar hyd taith dysgu gydol oes ehangach. Fodd bynnag, y cam cyntaf hwn yn aml yw'r caletaf ac mae medru cael mynediad i ddysgu sy'n hyblyg, yn agos gartref ac sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol i ddysgu yn anhygoel o bwysig. Gellid dadlau mai dyma'r rhan o'r system sydd wedi wynebu'r her fwyaf o ran adnoddau yn y degawd diwethaf. Bydd angen buddsoddi mewn meithrin gallu, proffesiynoli'r gweithlu ac ehangu darpariaeth er mwyn iddo chwarae rôl mewn sector ôl-orfodol gydlynol. Byddem hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor i geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd gan y sector dysgu oedolion yn y gymuned lais clir yn y Comisiwn newydd ac y bydd dulliau ar gael i sicrhau ymagwedd fwy cytbwys at gyllido.

- **Diffinio diben ehangach ar gyfer addysg oedolion:** mae polisi cyfredol ac adnoddau yn golygu fod ffocws addysg oedolion o fewn y system AHO wedi'i ddiffinio'n glir ac nad yw'n ateb y galw gan ddysgwyr yn llawn. Dylai'r Comisiwn osod diben ehangach ar gyfer addysg oedolion fel y gall darpariaeth ddiwallu'r angen am ddysgu i gefnogi sgiliau ar gyfer gwaith, ymgysylltu dinesig a democrataidd, a chydlyniaeth ac adnewyddu cymunedol. Yn benodol dylai'r diffiniad hwn gynnwys hyblygrwydd i ddarparwyr ateb y galw am ddysgu i gefnogi'r galw am ddysgu i

[1] https://learningandwork.org.uk/what-we-do/lifelong-learning/adult-participation-in-learning-survey/

gefnogi iechyd a llesiant. Dylai'r Pwyllgor ystyried sut i sicrhau fod y Comisiwn newydd yn sefydlu cysylltiadau cydweithio gyda chyrff iechyd cyhoeddus i greu cyfleoedd ar gyfer dysgu sy'n atal afiechyd ac sy'n cefnogi unigolion i reoli cyflyrau iechyd, yn ogystal â chreu cysylltiadau clir gyda llwybrau presgripsiynau cymdeithasol lleol rhwng gofal sylfaenol a darparwyr dysgu.

- **Llais cryf ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr:** o fewn y system bydd llais myfyrwyr/dysgwyr yn hanfodol ar gyfer cynllunio ac atebolrwydd effeithlon. Yn neilltuol mae angen cynyddu lleisiau oedolion a dysgwyr rhan-amser ar draws y system AHO o fewn strwythurau'r Comisiwn ei hun ac ar lefel leol/sefydliadol.

**Darpariaeth cyfleusterau addas ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant 'perthnasol' ar gyfer oedolion 'cymwys'**

Mae maes pwysig lle mae'n dal i fod angen mwy o eglurdeb os ydym i ddeall yn llawn fwriad arfaethedig y ddeddfwriaeth. Croesewir y newid a gynigir yn y ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau 'cyfleusterau priodol' ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant perthnasol ar gyfer oedolion cymwys fel cam ymlaen ond mae risg y caiff y diffiniadau o 'perthnasol' a hefyd 'gymwys' eu llunio'n dyn.

Gallai effaith rheoliadau cul gyfyngu cyrsiau a dibenion a ddiffinnid fel bod yn berthnasol a therfynau ar unigolion a fyddai'n gymwys i gael mynediad i ddarpariaeth a chymorth. Yn benodol, rydym yn bryderus y gellid tynnu'r meini prawf cymhwyster yn gul, o leiaf i ddechrau, i hepgor dysgwyr canol-gyrfa a dysgwyr hŷn ac i ganolbwyntio'n gyntaf ar garfannau iau (er enghraifft, 19-25). Byddai gosod blaenoriaeth o'r fath ar ddysgwyr iau gan eithrio carfannau oedolion hŷn yn peryglu tanseilio'r ddyletswydd strategol i hyrwyddo dysgu gydol oes ac i ateb yr her o gymdeithas a gweithlu sy'n heneiddio. Dylai Llywodraeth Cymru osgoi cystadlu rhwng carfannau ac yn hytrach gefnogi buddsoddiad cytbwys ar draws y sector a phroffil oedran dysgwyr.

Heb weld y rheoliadau hyn bydd yn anodd asesu'r effaith a fydd gan y Comisiwn ar ehangu cyfranogiad a rhoi mynediad i ailhyfforddiant a chymorth cynyddu sgiliau ar gyfer oedolion. Er y disgwyliwn y bydd ymgysylltu gyda'r sector cyn cyhoeddi'r rheoliadau byddem yn gofyn i'r Pwyllgor geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod hyn yn ystyrlon ac amserol.

Diolch eto am y cyfle i gyflwyno ein tystiolaeth i'r Pwyllgor.